SL(5)434 - Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019

Cefndir a Diben

Gwneir Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019 ("y Rheoliadau hyn") drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") i ddarparu i hyd at ddwy sesiwn yn nhrydydd tymor pob un o'r blynyddoedd ysgol 2019–2020, 2020–2021 a 2021–2022 gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os oeddent wedi eu neilltuo i ddarparu hyfforddiant, neu i baratoi a chynllunio, mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm i Gymru. Mae'r newidiadau arfaethedig hyn yn deillio o'r Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru a'r adroddiad dilynol "Dyfodol Llwyddiannus" (Medi 2015). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn hepgor darpariaethau diangen yn Rheoliadau 2003.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt technegol i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at ddiffiniadau yn rheoliad 2 o Reoliadau 2003, ac yn hepgor y diffiniadau a ganlyn: "cyfnod sylfaen" a "cyfnod allweddol". Fodd bynnag, nid yw'r naill na'r llall o'r diffiniadau hyn wedi'u cynnwys yn rheoliad 2 o Reoliadau 2003. Serch hynny, mae'r ddau ddiffiniad yn ymddangos yn rheoliad 3 o Reoliadau 2003.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nodir a derbynnir y pwynt adrodd. Bydd y Llywodraeth yn gofalu y caiff y pwynt hwn ei gywiro drwy gyfrwng slip cywiro.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt rhinweddau uchod.